CANLLAWIAU

# Plant!: cwestiynau cyffredin

Dyma’r cwestiynau rydych chi’n gofyn inni’n fwyaf aml, a’u hatebion. Maen nhw’n cynnwys manylion ynghylch pam rydym wedi plannu coed mewn ardaloedd gwahanol o Gymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Hydref 2017

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 3 Chwefror 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Oes angen imi gadarnhau yr hoffwn i gael coeden wedi'i phlannu i'm plentyn?

A fydd hynny'n costio unrhyw beth i mi?

Pam na ellir plannu'r goeden yn agosach i'm cartref?

Hoffwn noddi plannu coed

Ydych chi'n defnyddio papur wedi'i ailgylchu?

Pam nad ydych chi'n argraffu ar y ddwy ochr?

Rwyf wedi darllen bod coeden wedi'i phlannu ar gyfer fy mhlentyn yn Mbale

Pryd alla'i ddisgwyl derbyn fy nhystysgrif?

Er tristwch mawr, roedd fy maban i'n farw-anedig. A fyddaf i'n derbyn tystysgrif ac yn cael coeden wedi'i phlannu?

Cafodd fy maban ei eni yng Nghymru ond rydym yn byw ychydig dros y ffin yn Lloegr, pam nad ydw'i wedi derbyn tystysgrif?

Sut alla'i ddod o hyd i fy nghoeden?

A fydd plac ar goeden fy mhlentyn fel y gellir ei hadnabod?

Mae gen i ddiddordeb mewn cael safle Plant! ar fy nhir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Hoffwn i ddod â’r plant sydd yn fy nosbarth i yn yr ysgol/ grŵp Cybiau/ Brownis i ymweld â’r safle.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Oes angen imi gadarnhau yr hoffwn i gael coeden wedi’i phlannu i’m plentyn?

Na. Bydd coeden yn cael ei phlannu’n awtomatig i’ch plentyn.

## A fydd hynny’n costio unrhyw beth i mi?

Na, bydd y goeden yn cael ei phlannu heb unrhyw gost i chi.

## Pam na ellir plannu’r goeden yn agosach i’m cartref?

## Rwy’n byw yn ne Cymru ond mae safle’r coetir a ddyrannwyd i’m plentyn yn bell o’m cartref.

Mae’r goeden a blannwyd ar ran eich plentyn wedi’i phlannu yn y coetir sydd i’w greu fel rhan o’r rhaglen Plant! yn ne Cymru. Am nad yw’r coed wedi’u marcio ag enwau mewn unrhyw ffordd, gallwch chwilio i weld ble mae’r holl goetiroedd Plant! wedi’u lleoli ar y dudalen ‘ymweld â’ch safle’, a gallwch ymweld â’r un agosaf atoch chi os yw hynny’n fwy cyfleus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Rwy’n byw yng ngogledd Cymru ond mae safle’r coetir a ddyrannwyd i’m plentyn yn bell o’m cartref. Pam na ellir plannu’r goeden yn agosach i’m cartref?

Mae’r goeden a blannwyd ar ran eich plentyn wedi’i phlannu yn y coetir sydd i’w greu fel rhan o’r rhaglen Plant! yng ngogledd Cymru. Am nad yw’r coed wedi’u marcio ag enwau mewn unrhyw ffordd, gallwch chwilio i weld ble mae’r holl goetiroedd Plant! wedi’u lleoli ar y dudalen ‘ymweld â’ch safle’, a gallwch ymweld â’r un agosaf atoch chi os yw hynny’n fwy cyfleus.

## Cefais fy mendithio ag ŵyr bach newydd yn ddiweddar a hoffwn roi nawdd i blannu coeden fel anrheg o ddiolchgarwch.

## Hoffwn blannu coeden i frawd/chwaer hŷn.

Mae yna sefydliadau sy’n cynnig gwasanaeth plannu coed, fel Coed Cadw, sy’n gweithredu cynllun cyflwyno coeden er cof. Ceir mwy o wybodaeth ar y wefanau isod:
**https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/give/dedications/**
**http://www.nationalforest.org/sponsor/plantatree/**

## Allwch chi ddweud wrtha’ i a yw’r wybodaeth ‘coeden i bob plentyn’ a anfonir gennych yn cael ei hargraffu ar bapur sydd wedi’i ailgylchu os

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## gwelwch yn dda?

Mae’r holl bapur a ddefnyddiwn ar gyfer y llythyrau a’r tystysgrifau’n dod o ffynonellau cynaliadwy’r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd. Mae’r coedwigoedd hyn yn cael eu rheoli’n gyfrifol ac yn cael eu tyfu gyda’r bwriad penodol o ddefnyddio’r coed ar gyfer papur a chynnyrch coed arall. Plannir coed i gymryd lle’r rhai sy’n cael eu torri, er mwyn parhau i gynnal ardaloedd coedwigol. Mae’r carbon deuocsid sy’n cael ei amsugno o’r atmosffer gan y coed yn ystod eu hoes yn awr yn rhan o’r papur, y cerdyn, a’r cynnyrch coed arall, a bydd y coed newydd yn parhau’r broses o dynnu carbon deuocsid o’r atmosffer. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ail-eirio’r llythyr i rieni i gynnwys yr wybodaeth hon am ffynhonnell y papur.

## Pam nad ydych chi’n argraffu ar y ddwy ochr?

Rydym wedi rhoi cynnig ar newid i bapur sydd wedi’i ailgylchu ac argraffu ar y ddwy ochr o’r blaen, ond cafwyd problemau argraffu a arweiniodd at wastraffu gormod o bapur ac inc yn y gorffennol. O ganlyniad rydym wedi dewis defnyddio papur sy’n dod o adnodd cynaliadwy. Rydym hefyd wedi ystyried defnyddio e-bost i ledaenu’r neges am y cynllun i rieni newydd, ond ar hyn o bryd nid oes angen y data hwn yn gyfreithiol pan fydd genedigaethau’n cael eu cofrestru, felly ni allwn gael gafael ar yr wybodaeth hon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Rwyf wedi darllen bod coeden wedi'i phlannu ar gyfer fy mhlentyn yn Mbale. Allwch chi ddweud mwy wrtha'i am y goeden honno os gwelwch chi'n dda?

Ers Ebrill 2014 mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â'r elusen Maint Cymru i blannu coed yn Mbale, Uganda fel rhan o'i rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Mae coeden wedi'i phlannu yng Nghymru ac un arall yn Mbale i nodi achlysur geni/mabwysiadu eich plentyn. Ewch i **Maint Cymru** i gael mwy o wybodaeth.

## Pryd alla'i ddisgwyl derbyn fy nhystysgrif?

Anfonir y tystysgrifau drwy'r post pan mae'r plentyn yn dri mis oed. Os nad ydych chi wedi derbyn y dystysgrif erbyn y pedwerydd mis, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda:
**plant.requests@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## Er tristwch mawr, roedd fy maban i'n farw-anedig. A fyddaf i'n derbyn tystysgrif ac yn cael coeden wedi'i phlannu?

Yn anffodus ni fydd y cynllun Plant! yn anfon tystysgrif, ond mae'r sefydliad sy'n bartner inni yn y cynllun, sef Coed Cadw, yn cynnig gwasanaeth plannu coeden goffa os ydych chi'n teimlo y byddai hynny'n addas i chi.
**https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/give/dedications/**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cafodd fy maban ei eni yng Nghymru ond rydym yn byw ychydig dros y ffin yn Lloegr, pam nad ydw'i wedi derbyn tystysgrif?

Mae'r rhaglen yn defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac yn ôl hwnnw y cyfeiriad a roddwyd gan y fam pan gafodd y plentyn ei eni yw cyfeiriad cofrestredig y baban. Os yw'r cyfeiriad hwn yn Lloegr, yn anffodus ni fydd y baban yn derbyn coeden na thystysgrif. Os hoffech chi blannu coeden eich hun, mae Coed Cadw'n cynnig gwasanaeth plannu coeden goffa:
**https://www.woodlandtrust.org.uk/support-us/give/dedications/**

## Sut alla'i ddod o hyd i fy nghoeden?

Mi fyddwch chi'n derbyn llythyr gyda'ch tystysgrif yn nodi enw'r safle lle mae eich coeden wedi'i phlannu. Os ewch chi i'r **Safleoedd coetir Plant!**, gallwch ddod o hyd i'r cod post ar gyfer y safle a chymryd golwg.

## A fydd plac ar goeden fy mhlentyn fel y gellir ei hadnabod?

Mae pob coeden yn cynrychioli achlysur geni neu fabwysiadu plentyn. Nid yw'r coed wedi'u marcio mewn unrhyw ffordd, ond mae nifer y coed ar y safle'n cynrychioli nifer y genedigaethau a glustnodwyd ar gyfer y safle hwnnw, ac mae'n cael ei fonitro. Mae croeso ichi ymweld â'r safle a dewis coeden benodol yr hoffech chi ddweud yw coeden eich plentyn, gan ymweld â hi'n rheolaidd i'w gweld yn tyfu ochr yn ochr â'ch plentyn!

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Mae gen i ddiddordeb mewn cael safle Plant! ar fy nhir. A allaf/ sut allaf i wneud hynny?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda: **plant.requests@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## Hoffwn i ddod â'r plant sydd yn fy nosbarth i yn yr ysgol/ grŵp Cybiau/Brownis i ymweld â'r safle. Alla'i wneud hynny?

Byddem wrth ein boddau petaech chi'n dod â grŵp i ymweld â'r safle. Byddem yn ddiolchgar hefyd petaech chi'n gadael inni wybod pa safle a phryd, i wneud yn siŵr nad yw'n gwrthdaro â digwyddiad sy'n cael ei drefnu. Petai modd inni gael lluniau o'r plant gyda'r coed, ynghyd â chaniatâd i'w rhannu, mi fyddem wrth ein boddau'n eu defnyddio i ledaenu'r neges am Plant! ymhellach!

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/plant-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.